



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

CYNULLIAD CENEDLAETHOL

CYMRU

PWYLLGOR DEDDFAU

YR AIL GYNULLIAD

PEDWERYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL

2006 - 2007

CYNNWYS	Rhif y dudalen
RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR DEDDFAU	3
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH	5
YR AIL GYNULLIAD: DADANSODDIAD O'R BEDWAREDD FLWYDDYN – CYFLWYNIAD	6
CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR: RHEOL SEFYDLOG 11.7	6
DOSBARTHU'R PROBLEMAU A NODWYD GAN Y PWYLLGOR O DAN REOL SEFYDLOG 11.7 (SIART BAR)	7
SYLWADAU	8
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH	9
GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2006 - 2007 (Siart cylch)	9
MATERION GWEITHREDOL	9
OFFERYNNAU STATUDOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU	10
CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN Y PWYLLGOR YN EU HADRODDIADAU	22
PWYNTIAU A NODWYD O DAN REOL SEFYDLOG 11.7	34

YR AIL GYNULLIAD

AIL ADRODDIAD BLYNYDDOL

2006 - 2007

CRYNODEB O WAITH Y PWYLLGOR DEDDFAU 2006-2007

RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR DEDDFAU

Cyfarfu'r Pwyllgor Deddfau am y tro cyntaf ar 14 Medi 1999. Hysbysodd Michael German AC, Cadeirydd cyntaf y Pwyllgor, yr Aelodau y gosodir adroddiadau'r Pwyllgor gerbron y Cynulliad a'u hatodi i'r Gorchymyn drafft perthnasol i'w hystyried yn y Cyfarfod Llawn perthnasol. Caiff yr adroddiadau eu dwyn i sylw Aelodau'r Cynulliad pan gaiff papurau'r Cyfarfodydd Llawn eu dosbarthu. Bu'r weithdrefn hon yn sail i waith y Pwyllgor ar hyd y blynyddoedd.

Eitem gyntaf o ddeddfwriaeth drafft y Cynulliad a ystyriwyd gan y Pwyllgor oedd "Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Cymru) (Cychwyn) 1999" (Adroddiad LC1) a'r Offeryn Statudol diwethaf oedd "Rheoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007" (Adroddiad LC1513) a ystyriwyd yn y cyfarfod diwethaf ar 20 Mawrth 2007. At ei gilydd, mae'r Pwyllgor wedi ystyried 1513 o eitemau o ddeddfwriaeth.

Bu'r Pwyllgor yn cyfarfod yn wythnosol yn ystod y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad, a chyhoeddodd gyfanswm o wyth Adroddiad Blynyddol.

Ym mis Gorffennaf 2001 aeth Mick Bates AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau ar y pryd, i Gynhadledd Ryngwladol ar Reoli Diwygio Rheoliadau a Chraffu ar Ddeddfwriaeth yn Senedd De Cymru Newydd Sydney, Awstralia gan roi cyflwyniad o'r enw "Diwygio Rheoleiddiol – Safbwynt Cymru". Cyhoeddodd y Pwyllgor yr adroddiad hwn yn ddiweddarach.

Yn 2002 cyflwynodd y Pwyllgor sylwadau ysgrifenedig i Gomisiwn Richard. Mick Bates AC, Cadeirydd y Pwyllgor, oedd yn cynrychioli'r Pwyllgor gerbron y Comisiwn.

Ym mis Gorffennaf 2005 cyflwynodd y Pwyllgor ei safbwyntiau i Bwyllgor y Cynulliad ar y Papur Gwyn; teitl y ddogfen oedd "Craffu Technegol ar Ddeddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol o fis Mai 2007 ymlaen". Aeth Glyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor, i gyfarfod y Pwyllgor ar y Papur Gwyn i fynegi safbwynt y Pwyllgor.

Yng ngwanwyn 2006 bu'r Pwyllgor Deddfau'n ystyried cylch gwaith posibl pwyllgor is-ddeddfwriaeth a gaiff ei sefydlu gan y Trydydd Cynulliad yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dod i rym. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn nifer o sylwadau ysgrifenedig ac wedi

clywed tystiolaeth llawer o arbenigwyr a sefydliadau cysylltiedig. Roedd yr Aelodau'n arbennig o ddiolchgar i Sylvia Jackson, Aelod o Senedd yr Alban a Stewart Maxwell, Aelod o Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban, Jenny Randerson AC, Cadeirydd Pwyllgor Busnes y Cynulliad, David Lambert a Marie Navarro o Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd ac Anna Daniel o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ym Mrwsel. Ceir manylion y papurau a'r trafodion ar wefan y Pwyllgor. Cyflwynwyd Adroddiad y Pwyllgor ar yr Adolygiad i'r Prif Weinidog, y Llywydd a phob Aelod Cynulliad, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan y Pwyllgor.

Ni fyddai'r gwaith craffu manwl ac angenrheidiol hwn yn bosibl heb gyfraniad Aelodau'r Pwyllgor.

Aelodau Cynulliad y Pwyllgor yn ystod y Cynulliad Cyntaf oedd: Lorraine Barrett AC, Mick Bates AC, Nicholas Bourne LLB LLM AC, Rosemary Butler AC, Christine Chapman AC, Glyn Davies AC, Jocelyn Davies AC, Ron Davies AC, Delyth Evans AC, Val Field AC, Michael German OBE AC, Dr Brian Gibbons FRCGP AC, Janice Gregory AC, John Griffiths AC, Pauline Jarman AC, Ann Jones AC, Carwyn Jones LLB AC, Peter Law AC, Huw Lewis AC, Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip. Ther FRCGP AC, Val Lloyd AC John Marek AC, Tom Middlehurst AC, Jonathan Morgan LLB MSc FRSA AC, Lynne Neagle AC, Alun Pugh AC, Karen Sinclair AC, Gwenda Thomas AC, Owen John Thomas MA AC.

Aelodau Cynulliad y Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad oedd: Eleanor Burnham AC, Rosemary Butler AC, Christine Chapman AC, Jeff Cuthbert AC, Glyn Davies AC, Tamsin Dunwoody AC, Janice Gregory AC, Christine Gwyther AC, Irene James AC, Elin Jones AC, Laura Jones AC, Ann Jones AC, Dai Lloyd AC, Sandra Mewies AC, Janet Ryder AC, Catherine Thomas AC, Brynle Williams AC.

Hoffwn ddiolch i'm rhagflaenwyr a fu'n cadeirio'r Pwyllgor o'm blaen: Michael German OBE AC a Mick Bates AC yn ystod y Cynulliad Cyntaf a Glyn Davies AC yn ystod yr Ail Gynulliad hyd at fis Ionawr 2006.

Hoffwn hefyd gydnabod ymdrechion Cynghorwyr Cyfreithiol a swyddogion y Pwyllgor - roedd eu cyfraniad hwy yn golygu bod y Pwyllgor wedi rhedeg yn effeithlon ac yn ddiraffferth o fewn amserlen brysur o gyfarfodydd wythnosol. Yn y cyd-destun hwn hoffwn enwi Mr John Turnbull yn arbennig, sef Cynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor am chwe blynedd - rhwng sefydlu'r Pwyllgor ym 1999 a mis Ionawr 2004. Atefag yr hyn a ddywedodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, y Llywydd yn ei deyrnged iddo, sef bod John Turnbull wedi helpu'r Pwyllgor i osod sylfeini cadarn ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth. Olynwyr Mr Turnbull yw Mr Gwyn Griffiths, y Cynghorydd Cyfreithiol a Mrs Joanest Jackson, y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol.

Dros y blynyddoedd, gwasanaethwyd y Pwyllgor gan dri Chlerc, sef Jane Phillips (Mehafin 1999 – Tachwedd 1999), Adrian Green (Tachwedd 1999 – Mehefin 2001) ac, yn olaf, Olga Lewis, Clerc y Pwyllgor ers mis Mehefin 2001.

David Melding AC

Cadeirydd Pwyllgor Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

GWETHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pedair ffordd wahanol: drwy Weithdrefn Safonol, Gweithdrefn Weithredol, Gweithdrefn Garlam neu Weithdrefn Estynedig. Mae'r Pwyllgor Deddfau hefyd yn craffu ar ddeddfwriaeth a wneir o dan Reol Sefydlog 25.2 a Rheol Sefydlog 29.

Gweithdrefn Safonol

O dan y Weithdrefn Safonol, mae'r Gweinidog cyfrifol yn cyhoeddi gorchymyn drafft i'r holl aelodau ac yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylai gael ei ystyried gan bwyllgor pwnc. Fel arfer mae'r Gweinidog hefyd yn gwneud arfarniad rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol y gorchymyn drafft. Wedyn mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r gorchymyn drafft i'r Pwyllgor Busnes ac yn argymhell a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc. Ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes, mae'r Dirprwy Lywydd yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc (gweithdrefn estynedig) ac, ar ôl unrhyw adroddiad gan y pwyllgor pwnc, mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r gorchymyn drafft yn y Cyfarfod Llawn ac yn ei gyfeirio at y Pwyllgor Deddfau. Mae'r Pwyllgor Deddfau yn adrodd wedyn ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r gorchymyn drafft. Wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, gellir gwneud y gorchymyn (Rheol Sefydlog 24).

Gweithdrefn Estynedig

O dan y Weithdrefn Estynedig anfonir gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc gan y Dirprwy Lywydd fel yr amlinellir yn y disgrifiad o'r Weithdrefn Safonol uchod (Rheol Sefydlog 24.6 – 24.8).

Gweithdrefn Garlam

O dan y Weithdrefn Garlam mae'r Cynulliad, ar gynnig y Gweinidog, yn pleidleisio i gymeradwyo gorchymyn drafft heb unrhyw drafodaeth (Rheol Sefydlog 24.25), ond ar ôl iddo gwblhau pob cam arall o'r Weithdrefn Safonol.

Gweithdrefn Weithredol

O dan y Weithdrefn Weithredol, gall Cabinet y Cynulliad benderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio ag un neu fwy o gamau yn y weithdrefn safonol, gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth gan y Cynulliad. Pan wneir gorchymyn heb iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad gall Aelod gyflwyno cynnig, o fewn 40 diwrnod gwaith i wneud y gorchymyn, i ddiddymu'r gorchymyn. Os nad yw'r gorchymyn wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau cyn iddo gael ei wneud, fe'i cyfeirir at y Pwyllgor wedi hynny. Caiff unrhyw wallau a nodir o dan Reol Sefydlog 11.7 eu cywiro y tro nesaf y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn deddfu ar y pwnc fel arfer. Fodd bynnag, os yw'r gwall yn un difrifol, argymhellir y dylid gwneud deddfwriaeth i ddiwygio'r offeryn gwreiddiol cyn gynted â phosibl.

Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 29

Mae'r Pwyllgor Deddfau hefyd yn ystyried deddfwriaeth a wneir o dan Reol Sefydlog 29. Nid yw'n ofynnol gwneud is-ddeddfwriaeth o'r fath hon drwy gyfrwng Offeryn Statudol ac nid yw'n ddarostyngedig i weithdrefn seneddol.

Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25.2

Is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn Seneddol berthnasol.

YR AIL GYNULLIAD: DADANSODDIAD O'R BEDWAREDD FLWYDDYN

CYFLWYNIAD

Swyddogaeth y Pwyllgor Deddfau yw craffu ar is-ddeddfwriaeth berthnasol y Cynulliad i sicrhau ei bod o fewn cwmpas y pwerau galluogi a'i bod wedi'i drafftio'n foddhaol. Nodir ei sail statudol yn adrannau 58 a 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a rhestrir ei swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 11.

Hwn yw'r Pedwerydd Adroddiad Blynyddol am waith y Pwyllgor Deddfau (Ail Gynulliad) ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o fis Gorffennaf 2006 hyd at fis Mawrth 2007. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'r Pwyllgor yn ystyried cyfanswm o **171** darn o is-ddeddfwriaeth.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor i graffu ar Offerynnau Statudol. Cyflwynir y canlyniadau ar ffurf tabl er hwylustod.

CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR: RHEOL SEFYDLOG 11.7

Mae Rheol Sefydlog 11.7 yn nodi ar ba seiliau y dylai'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth. Mae'r seiliau fel a ganlyn:

- amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad neu ei bod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau;
- mae wedi ei heithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;
- mae'n ymddangos bod iddi effaith ôl-weithredol na chaniateir;
- mae angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr;
- mae'n ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol neu ei bod yn methu â bodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill;
- mae'n ymddangos bod anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg;
- mae'r is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol;
- mae'n ymddangos na chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyn adrodd i'r Cynulliad, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 11.6, hysbysu'r Gweinidog Cynulliad perthnasol am y bwriad hwn, a'i wahodd ef neu hi i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor.


Yn ystod cyfnod yr adroddiad, (Gorffennaf 2006 – Mawrth 2007) ystyriodd y Pwyllgor **171** o ddarnau o ddeddfwriaeth.

Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar **60** achlysur gwahanol. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hi'n bosibl cywiro'r diffygion hynny drwy Femorandwm Cywiriadau: ar **47** o'r **60** achlysur.

Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i Offerynnau Statudol am y rhesymau a ganlyn:

- roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol – **23** achos;

- drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **12** achos;
- ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg – **5** achos;
- drafftio diffygiol, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg – **4** achos;
- drafftio diffygiol, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **4** achos;
- drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **4** achos;
- roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **2** achos;
- drafftio diffygiol, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **2** achos;
- roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **1** achos;
- drafftio diffygiol, roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr – **1** achos;
- drafftio diffygiol, amheuaeth a yw'r is-ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad – **1** achos;
- drafftio diffygiol, roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **1** achos.



- 1 - drafftio diffygiol – **23** achos;
- 2 - drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **12** achos;
- 3 - ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg – **5** achos;
- 4 - drafftio diffygiol, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg – **4** achos;

- 5** - drafftio diffygiol, ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **4** achos;
- 6** - drafftio diffygiol, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **4** achos;
- 7** - roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **2** achos;
- 8** - drafftio diffygiol, roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **2** achos;
- 9** - roedd yr is-ddeddfwriaeth yn defnyddio iaith ryw-benodol – **1** achos;
- 10** - drafftio diffygiol, roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr – **1** achos;
- 11** - drafftio diffygiol, amheuaeth a yw'r is-ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad – **1** achos;
- 12** - drafftio diffygiol, roedd angen eglurhad pellach o'r ffurf neu'r ystyr, roedd anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg – **1** achos.

O gyfanswm o **171** Offeryn Statudol a ystyriwyd rhwng mis Gorffennaf 2005 a mis Mawrth 2007, ni fu'n rhaid i'r Pwyllgor wneud unrhyw sylwadau o dan Reol Sefydlog 11.7 o ran **111** o'r Gorchmynion hynny. Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i dalu sylw arbennig i ddeddfwriaeth ar **60** achlysur ar wahân. O'r rhain, mae **17** ar gael fel copïau papur ar hyn o bryd. Ystyriodd **9** fersiwn derfynol argymhellion y Pwyllgor yn llawn; roedd **2** fersiwn derfynol yn defnyddio rhai o'r awgrymiadau; ni ddefnyddiwyd yr argymhellion mewn **4** fersiwn derfynol; roedd **2** fersiwn derfynol yn ystyried y pwyntiau, gyda'r gwelliannau wedi'u cynnwys yn yr Offerynnau Statudol newydd.

Mewn sawl achos gofynnwyd i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor roi sylwadau ar ddrafftiau cynnar o ddeddfwriaeth. Canlyniad hyn oedd bod nifer sylweddol o bwyntiau drafftio a phwyntiau eraill wedi'u cywiro cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor.


SYLWADAU

Yn ogystal ag adrodd yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.7, mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad hefyd wedi cynnwys sylwadau ar fân wallau.

Gwnaeth y Pwyllgor gyfanswm o **66** sylw. O'r rhain, nododd y Pwyllgor achosion o ddrafftio diffygiol ar **33** achlysur gan awgrymu fod angen eglurhad pellach ar **6** achlysur. Canfuwyd gwallau teipograffyddol ar **16** achlysur. Roedd **6** achos yn cynnwys gwallau gramadegol. Nodwyd mân anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg ar **5** achlysur.

GWEITHDREFNAU GWNEUD DEDDFWRIAETH: 2006-2007

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu deddfwriaeth mewn pum ffordd wahanol: drwy'r Weithdrefn Safonol, y Weithdrefn Weithredol, y Weithdrefn Garlam, o dan Reol Sefydlog 29 ac o dan Reol Sefydlog 25 Rhan II. O gyfanswm o **171** Gorchymyn a ystyriwyd gan y Pwyllgor rhwng mis Gorffennaf 2006 a mis Mawrth 2007, gwnaed **102** ohonynt (60.0%) drwy'r Weithdrefn Safonol; **19** ohonynt (11.1%) drwy'r Weithdrefn Weithredol; **49** ohonynt (29%) drwy'r Weithdrefn Garlam ac **1** ohonynt (0.6%) drwy'r Weithdrefn Estynedig. O'r 102 Gorchymyn a ddilynodd y Weithdrefn Safonol, gwnaed **6** ohonynt (3.5% o'r 171 Offeryn Statudol) drwy Reol Sefydlog 29 ac **1** ohonynt (0.6% o'r 171 Offeryn Statudol) drwy Reol Sefydlog 25 Rhan II.



MATERION GWEITHREDOL

Cynhaliodd y Pwyllgor Deddfau gyfarfodydd bob wythnos yn ystod tymor y Cynulliad ac felly bu'n rhaid iddo weithio i amserlenni caeth iawn. Fodd bynnag, bu'r Pwyllgor yn gweithredu'n ddidrafferth. Gosodwyd pob Offeryn Statudol drafft ac adroddiadau'r cynghorwyr cyfreithiol ar agenda cyfarfodydd yn fuan ar ôl dyddiad gosod y ddeddfwriaeth ddrafft gerbron y Cynulliad. Nod Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor oedd sicrhau bod gan yr Aelodau bob papur ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.22. Ar ôl pob cyfarfod, sicrhoedd yr Ysgrifenyddiaeth fod Adroddiadau'r Pwyllgor yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl, a hynny ar yr un diwrnod fel arfer. Cafodd yr adroddiadau a'r cofnodion eu rhoi ar y Rhyngrwyd o fewn dau ddiwrnod gwaith i gyfarfodydd y Pwyllgor. Anfonwyd pob llythyr o dan Reol Sefydlog 11.6 (h.y., llythyrau gan y Cadeirydd yn hysbysu'r Gweinidog bod y Pwyllgor wedi gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i Orchmynion arfaethedig y Cynulliad) o fewn yr amserlen hefyd.

OFFERYNNAU STATUDOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

Rhif OS	Teitl yr OS a'r Weithdrefn a Ddilynwyd	Dyddiad(au) ystyried
LC1343	Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 5 Gorffennaf 2006</i>	19 Medi 2006
LC1344	The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) Order 2006 <i>Saesneg yn unig. Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'i wneud ar 5 Gorffennaf 2006</i>	19 Medi 2006
LC1345	Cyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau'r GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys 2006 <i>Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 29. Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 27 Medi 2006</i>	19 Medi 2006
LC1346	Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 30 Medi 2006</i>	19 Medi 2006
LC1347	The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 <i>Saesneg yn unig. Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 29 Gorffennaf 2006</i>	14 Tachwedd 2006
LC1348	Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 16 Awst 2006</i>	26 Medi 2006
LC1349	Rheoliadau Swm Amgylcheddol (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 4 Hydref 2006</i>	26 Medi 2006
LC1350	Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categoriâu o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 <i>Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 29. Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar Hydref 2006</i>	26 Medi 2006
LC1351	Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 14 Hydref 2006</i>	3 Hydref 2006
LC1352	Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 16 Hydref 2006</i>	3 Hydref 2007
LC1353	Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 23 Hydref 2006</i>	3 Hydref 2006
LC1354	Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 20 Hydref 2006</i>	3 Hydref 2006
LC1355	Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 20 Hydref 2006</i>	3 Hydref 2006

LC1356	Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Orlhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006 <i>Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25.2. Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 20 Hydref 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1357	Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 20 Hydref 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1358	Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1359	Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1360	Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 25 Hydref 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1361	Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1362	Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Estynedig. Yn dod i rym ar 17 Tachwedd 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1363	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 18 Hydref 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1364	Rheoliadau Gwaith Stryd (Adfer) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 24 Ionawr 2007</i>	10 Hydref 2006
LC1365	The Secification for the Reinstatement of Openings in Highways 2nd Edition 2006 <i>Saesneg yn unig. Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 29. Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 24 Ionawr 2006</i>	10 Hydref 2006
LC1366	Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1367	Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar gyfer Cymorth i Fyfrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1368	Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 31 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1369	Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006

LC1370	Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 26 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1371	Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 3 Hydref 2006</i>	14 Tachwedd 2006
LC1372	Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 3 Hydref 2006</i>	14 Tachwedd 2006
LC1373	Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Eithriadau a Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 26 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1374	Rheoliadau Tai (Gorchmynion Rheoli a Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 26 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1375	Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 26 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1376	Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Esemptiadau Penodedig) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 26 Hydref 2006</i>	17 Hydref 2006
LC1377	Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Cychwyn) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Dyddiad dod i rym ar gyfer Rhan 6 o'r Ddeddf (hawliau tramwy) a rhannau o Adran 105(2) - 16 Tachwedd 2006</i>	24 Hydref 2006
LC1378	Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 15 Tachwedd 2006</i>	24 Hydref 2006
LC1379	Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2006</i>	24 Hydref 2006
LC1380	Rheoliadau Tenantiaethau Rhagarweiniol (Adolygu Penderfyniadau i Estyn Cyfnod Treialu) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 17 Tachwedd 2006</i>	24 Hydref 2006
LC1381	Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2007</i>	24 Hydref 2006
LC1382	Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 23 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1383	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 30 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1384	Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 24 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1385	Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2007</i>	7 Tachwedd 2006

LC1386	Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 10 Rhagfyr 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1387	Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1388	Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1389	Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1390	Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1391	Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 24 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1392	Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 24 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1393	The Curd Cheese (Restriction on Placing on the Market) (Wales) Regulations 2006 <i>Saesneg yn unig. Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 17 Hydref 2006</i>	14 Tachwedd 2006
LC1394	Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 18 Hydref 2006</i>	28 Tachwedd 2006
LC1395	Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 23 Tachwedd 2006</i>	14 Tachwedd 2006
LC1396	Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 23 Tachwedd 2006</i>	14 Tachwedd 2006
LC1397	Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 19 Tachwedd 2006</i>	7 Tachwedd 2006
LC1398	Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 27 Tachwedd 2006</i>	14 Tachwedd 2006
LC1399	Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 8 Rhagfyr 2006</i>	21 Tachwedd 2006
LC1400	Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 30 Tachwedd 2006</i>	21 Tachwedd 2006
LC1401	Rheoliadau Hadau Yd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 20 Rhagfyr 2006</i>	21 Tachwedd 2006

LC1402	Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 7 Tachwedd 2006</i>	28 Tachwedd 2006
LC1403	The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) (No 2) Order 2006 <i>Saesneg yn unig. Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 7 Tachwedd 2006</i>	28 Tachwedd 2006
LC1404	The Rice Products (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) Regulations 2006 <i>Saesneg yn unig. Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 8 Tachwedd 2006</i>	21 Tachwedd 2006
LC1405	Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2007</i>	28 Tachwedd 2006
LC1406	Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2006</i>	28 Tachwedd 2006
LC1407	Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9 ac Arbediad) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 6 Rhagfyr 2006; adran 69 o'r Ddeddf (codi neu wella camfeydd, etc.) - 1 Ebrill 2007.</i>	28 Tachwedd 2006
LC1408	The Rice Products (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 <i>Saesneg yn unig. Y Weithdrefn Weithredol. Wedi'u gwneud ar 14 Tachwedd 2006</i>	21 Tachwedd 2006
LC1409	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Weithredol. Yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2006</i>	5 Rhagfyr 2006
LC1410	Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodol) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 26 Rhagfyr 2006</i>	28 Tachwedd 2006
LC1411	Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Garlam. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2007</i>	5 Rhagfyr 2006
LC1412	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 30 Mehefin 2007</i>	5 Rhagfyr 2006
LC1413	Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2007</i>	5 Rhagfyr 2006
LC1414	Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2007</i>	5 Rhagfyr 2006
LC1415	Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006 <i>Y Weithdrefn Safonol. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2006</i>	5 Rhagfyr 2006

